Arolygu darpariaeth addysgol ar gyfer plant cyn oed ysgol gorfodol

Adroddiad meithrin ar:
Cylch Meithrin Llanllwni

Arolygydd Addysg Feithrin Cofrestredig: Shirley Taylor

Dyddiad yr arolygiad: 12/13 Mai 2009

Rhif y Contract: T/117/08N

Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2009: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Adroddiad ar arolygu lleoliadau meithrin yn y sector nas cynhelir

Enw'r feithrinfa: Cylch Meithrin Llanllwni

Cyfeiriad: **d/o Ysgol Gynradd Llanllwni**
Llanllwni
Pencader
Sir Gaerfyrddin

Cod Post: SA39 9DX

Ffôn: 07792 170368

Person sy'n gyfrifol am reoli o ddydd i ddydd: Janet Jones

Swydd: Arweinydd

Ynglŷn â'r arolygiad

Cynhaliwyd yr arolygiad fel rhan o raglen genedlaethol o arolygiadau o'r ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant cyn oed ysgol gorfodol yng Nghymru. Fe'i comisiynwyd gan Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion er mwyn i ddarparwyr allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a helpu plant i gyflawni eu llawn botensial. Diben arall yw hysbysu rhieni a'r cyhoedd am ansawdd addysg feithrin. Rhaid rhoi copi o'r adroddiad arolygu i bob rhiant/gofalwr sydd â phlentyn yn y feithrinfa a dylai fod ar gael ar gais i bobl eraill.

Mae arolygwyr wedi defnyddio graddfa pum pwynt i gofnodi'r holl farnau. Dyma'r diffiniadau graddau:

Gradd 1	da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2	nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3	nodweddion da'n gorbwyso diffygion
Gradd 4	rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5	llawer o ddiffygion pwysig

1.0 Cyd-destun y lleoliad

Cyd-destun lleoliad y feithrinfa:

Lleolir Cylch Meithrin Llanllwni yn neuadd Ysgol Gynradd Llanllwni sydd wrth ymyl y brifffordd rhwng Caerfyrddin a Llanbedr Pont Steffan. Sefydlwyd y lleoliad cyfrwng Cymraeg hwn nôl yn 1991 ac mae'n aelod cofrestredig o'r Mudiad Ysgolion Meithrin.

Mae'r feithrinfa ar agor am dair sesiwn foreol o ddydd Llun tan ddydd Mercher o 9.00yb tan 12.00yp ac am 39 wythnos y flwyddyn. Cofrestrwyd y lleoliad i dderbyn 14 o blant, rhwng dwy a hanner a phedair oed. Trosglwyddir y plant i'r ysgol gynradd yn y tymor cyn eu pen blwydd yn bedair oed. Mae'r Cylch Ti a Fi yn ymuno a'r feithrinfa ar fore dydd Llun.

Ar hyn o bryd, dau blentyn yn unig sy'n mynychu'r feithrinfa. Mae'r ddau blentyn yn dair oed gydag un ohonynt yn derbyn darpariaeth sydd wedi'i ariannu. Adeg yr arolygiad nid oedd yr un plentyn o gefndir lleiafrifol ethnig yn mynychu'r lleoliad. Mae un o'r plant o gartref lle siaradir Saesneg fel prif iaith yr aelwyd a'r llall o gartref Cymraeg. Adeg yr arolygiad nid oedd un plentyn wedi'i asesu'n ffurfiol fel un sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan y lleoliad gweithdrefnau derbyn sy'n croesawu pob plentyn i'w plith.

Mae'r lleoliad yn cael ei redeg gan bwyllgor rheoli gwirfoddol ac mae'n ddarparwr addysg fel aelod o Bartneriaeth Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, Sir Gaerfyrddin. Gwasanaetha'r lleoliad ardal wledig sy'n cwmpasu pentref Llanllwni, ac fe ddaw'r plant o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd da. Disgrifir yr ardal fel un sydd ddim yn arbennig o ffyniannus nac o dan anfantais ychwaith.

Defnyddir un ystafell ar gyfer gweithgareddau mewnol, ynghyd ag ardal allanol caeedig a chyfleusterau toiled ac ymolchi'r ysgol. Caiff yr ystafell ei defnyddio fel neuadd a ffreutur yr ysgol yn y cyfnodau lle nad yw'r feithrinfa yn gweithredu. Rhaid felly, i'r ymarferwyr gosod a chlirio cyfarpar ar ddechrau ac ar ddiwedd pob sesiwn.

Caiff y lleoliad ei staffio gan arweinydd sydd â Chymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol, Lefel 3 mewn Addysg a Gofal Plant, ynghyd ag un cymhorthydd. Mae'r ddwy a phrofiad helaeth o warchod babanod a phlant bach. Maent yn rhugl yn y Gymraeg.

Cafodd y lleoliad ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym mis Tachwedd 2008. Derbyniodd arolygid gan Estyn ym mis Gorffennaf 2003.

2.0 Prif ganfyddiadau'r adroddiad

2.1 Ansawdd a safonau cyffredinol darpariaeth addysgol a ph'un a yw'r ddarpariaeth yn hyrwyddo'r nodau ar gyfer dysgu plant yn llwyddiannus ai peidio

Mae llawer o ddiffygion yn ansawdd a safonau'r ddarpariaeth addysgol ac maent yn sylweddol is na'r hyn sy'n ofynnol.

Mae Estyn yn cytuno â barn Arolygydd y Cyfnod Sylfaen bod angen gwelliant â ffocws ar y lleoliad hwn.

2.2 Safonau a gyflawnir gan blant yn y chwe maes dysgu

Maes dysgu	Gradd ar gyfer plant o dan bump oed
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol	Ni ddyfarnwyd gradd
Medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu	Ni ddyfarnwyd gradd
Datblygiad mathemategol	Ni ddyfarnwyd gradd
Datblygiad yn y Gymraeg	Amherthnasol
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	Ni ddyfarnwyd gradd
Datblygiad corfforol	Ni ddyfarnwyd gradd
Datblygiad creadigol	Ni ddyfarnwyd gradd

2.3 Barn arolygu ar ansawdd yr addysg a ddarperir gan y lleoliad

Ansawdd yr addysg	Gradd ar gyfer plant o dan bump oed
Ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant	2
Ansawdd y cynllunio ar gyfer dysgu plant	4
Ansawdd yr addysgu	4
Ansawdd asesu a chofnodi cynnydd plant, ac adroddiadau i rieni a gofalwyr	4
Ansawdd y berthynas â rhieni, gofalwyr a'r gymuned	3
Y graddau y mae'r lleoliad yn cyfrannu at les plant	3
Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad	4
Y cynnydd a wnaed gan y lleoliad wrth weithredu'r materion allweddol ar gyfer gweithredu a nodwyd yn yr adroddiad arolygu diwethaf	4

3.0 Y safonau a gyflawnir gan blant yn y chwe maes dysgu

Gan fod llai na phump o blant tair blwydd oed yn mynychu'r lleoliad mae'r adran nesaf yn adrodd ar y ddarpariaeth yn hytrach na'r safonau a gyflawnir gan y plant.

3.1 Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Nodweddion da
Mae'r ymarferwyr yn llwyddo i greu amgylchfyd hamddenol a hapus lle mae'r plant yn barod i ofyn am gymorth. Ceir perthynas waith agos rhwng y plant a'r staff. Anogir y plant i feddwl am eraill ac i ddangos sensitifrwydd tuag at ei gilydd. Rhoddir cyfleoedd i'r plant rannu'u teimladau. Mae gweithdrefnau beunyddiol y lleoliad yn gyfarwydd i'r plant ac fe'u hanogir i gynorthwyo mewn gweithgareddau fel tacluso a gweini platiau a chwpanau yn ystod cyfnod byrbryd. Cynigir cyfleoedd iddynt ymarfer eu sgiliau hunanreolaeth a'u gallu i aros tro, megis wrth chwarae gêm syml. Rhoddir amser i sicrhau bod y plant yn datblygu dealltwriaeth o'r hyn sy'n ymddygiad priodol ac amhriodol. Mae gweithdrefnau dyddiol fel golchi dwylo cyn bwyta eu byrbryd neu ar ôl ymweld â'r tŷ bach yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o faterion sy'n ymwneud â'u glanweithdra personol. Mae amser byrbryd yn achlysur pleserus a chymdeithasol lle mae'r oedolion a'r plant yn eistedd gyda'i gilydd i fwynhau diod a ffrwythau. Anogir y plant i wisgo a dadwisgo eu dillad tu allan yn annibynnol. Cyflwynir y plant i ystod o ddathliadau sy'n gysylltiedig â Chymru, megis Dydd Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi. Rhoddir cyfleoedd iddynt wrando ar gerddoriaeth sy'n perthyn i Gymru, megis cadwyn o alawon Cymreig ac i ddysgu a chanu hwiangerddi a rhigymau traddodiadol.

Diffygion
Ar hyn o bryd, cyfyng yw'r ddarpariaeth o ran cyflwyno'r plant i ddathliadau sy'n perthyn i gredoau a diwylliannau eraill. O bryd i'w gilydd, mae gor-ymyrraeth yr ymarferwyr yn effeithio ar fedrusrwydd y plant i fentro ac ar eu cynnydd i ddatblygu fel dysgwyr annibynnol.

3.2 Medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu

Nodweddion da
At ei gilydd, mae'r ymarferwyr yn fodelau iaith da. Mae gweithdrefnau beunyddiol y lleoliad yn galluogi'r plant i adalw a pherfformio ystod o rigymau a chaneuon. Yn ystod amser stori, caiff y plant eu hannog i wrando ac i ddwyn i gof dilyniant cyfres o ddigwyddiadau, megis wrth wrando ar ddarlleniad o'r stori draddodiadol 'Jac a'r Goeden Ffa'. Mae'r ddarpariaeth hefyd yn cynnig cyfleoedd i'r plant fynegi barn a rhannu eu teimladau. Gwneir defnydd priodol o bypedau i gynnal ac i ysgogi diddordeb y plant. Anogir y plant i wrando ac i ymateb i gyfarwyddiadau syml, er enghraifft, wrth chwarae gemau fel cyfatebu lliwiau neu wrth blannu hadau ffa. Hyrwyddir ymwybyddiaeth y plant o siâp a sain rhai o lythrennau'r wyddor, megis wrth gyflwyno cyrens amser byrbryd yn siâp y llythyren 'c'. Rhoddir cyfleoedd i'r plant arbrofi ac i ymarfer eu sgiliau marcio o dan gyfarwyddyd oedolyn, gan gynnwys mewn paent gwlyb, reis a sebon eillio.

Diffygion
Nid yw'r ddarpariaeth yn cynnig digon o gyfleoedd i'r plant ymateb ar lafar gan ail ddweud geirfa neu i ddefnyddio patrymau iaith syml. Cyfyng yw'r cyfloed a roddir i'r plant i hybu eu dealltwriaeth o rai o swyddogaethau ysgrifennu. Prin yw'r dystiolaeth o labeli mawr o gwmpas yr amgylchfyd dysgu.

3.3 Datblygiad mathemategol

Nodweddion da
Mae'r ddarpariaeth yn cynnig cyfleoedd i'r plant i gyfateb, didoli a threfnu gwahanol siapiau a gwrthrychau megis hwyaid, hadau ffa ac ystod o sêr lliwgar. Rhoddir cyfleoedd i'r plant adalw rhigymau a chaneuon rhif ac i ymuno wrth gyfrif o 1 i 10. Yn ystod yr arolygiad, cynlluniwyd gweithgareddau i gyd-fynd â stori 'Jac a'r Goeden Ffa' gan gynnwys cyfrif a phlannu hadau ffa. Ceir tystiolaeth o'r gemau a gweithgareddau ar gyfer hybu adnabyddiaeth y plant o siapiau dau ddimensiwn syml. Drwy greu arddangosfa o gacen pen blwydd anferth a thynnu sylw'r plant at eu penblwyddi, rhoddir cyfleoedd iddynt sylweddoli bod gan rhai rhifau arwyddocâd personol. Cynigir profiadau trafod arian i'r plant, ac yn ddiweddar, drwy sefydlu siop arddio, caiff y plant gyfle i ddechrau deall pwrpas arian.

Diffygion
Nid oes digon o gyfleoedd wedi'u cynllunio ar gyfer hyrwyddo datblygiad a defnydd y plant, o'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o rif, mewn gweithgareddau bob dydd. Prin iawn yw'r cyfleoedd a gynllunnir i ymestyn defnydd a dealltwriaeth y plant o'r eirfa a therminoleg sy'n ymwneud â chysyniadau mathemategol sylfaenol. Nid yw'r arfer o annog y plant i ddatrys problemau ymarferol wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

3.5 Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

Nodweddion da
Darperir cyfleoedd priodol ar gyfer ymestyn ymwybyddiaeth y plant o'r byd naturiol o'u cwmpas. Drwy drefnu ymweliad â chanolfan arddio lleol, rhoddir cyfleoedd i'r plant i arsylwi ac i drafod tyfiant blodau a phlanhigion yn ogystal â'r creaduriaid sy'n byw mewn pwllyn dŵr. Mae arsylwi ar ddatblygiad penbyliaid yn rhoi cyfleoedd i'r plant werthfawrogi cylch bywyd brogaod. Atgyfnerthir y syniad o dyfiant wrth i'r plant dyfu planhigion o fylbiau a hadau, ac fe'u cyflwynir i'r amodau sydd angen ar bethau byw i dyfu'n iach. Rhoddir cyfleoedd i drafod a didoli dillad sy'n addas ar gyfer tywydd twym ac oer. Caiff gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o effaith tywydd y gwanwyn ar fyd natur eu cyfoethogi yn ystod gweithgareddau a gynlluniwyd ar y thema, 'Y Gwanwyn', er enghraifft, wyau yn deor a choed yn blaguro. Mae'r ddarpariaeth hefyd yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o enwau prif rannau allanol blodyn. Dengys tystiolaeth flaenorol bod gweithgareddau, megis arsylwi ar effaith gwres ac oerni ar wahanol gynhwysion gan gynnwys siocled, dŵr ac eira wedi cael eu cyflwyno i'r plant.

Diffygion
Annigonol yw'r cyfleoedd a gynllunnir i alluogi plant i archwilio priodweddau gwahanol ddefnyddiau ac i'w didoli i mewn i gategorïau syml. Nid yw'r ddarpariaeth yn cynnig cyfleoedd i'r plant ddatblygu eu gallu i ddatrys problemau ac i wneud penderfyniadau yn annibynnol. Prin yw'r cyfleoedd a roddir i'r plant i ymestyn eu sgiliau arbrofi ac archwilio yn yr amgylchfyd mewnol ac allanol.

3.6 Datblygiad corfforol

Nodweddion da
Mae'r ddarpariaeth yn cynnig cyfleoedd i'r plant ddatblygu eu gallu i symud yn hyderus ac i ddefnyddio'r gofod mewnol ac allanol yn briodol. Caiff y plant eu cyflwyno i'r derminoleg sy'n ymwneud â safle a symud, megis lan a lawr, isel ac uchel a rownd a rownd. Mae'r cynlluniau yn sicrhau cyfleoedd cyson i'r plant ddefnyddio ystod o gyfarpar ac offer bach, gan gynnwys brwsys paent, blociau adeiladu, jig-sos a theclynnau garddio. Rhoddir cyfleoedd i'r plant ymarfer eu sgiliau corfforol mân yn ddyddiol wrth iddynt ymwneud â gweithgareddau torri, gludo, addurno a lliwio. Mae'r ardal tu allan yn cynnig gofod i'r plant ddefnyddio beiciau er mwyn ymarfer eu sgiliau pedalu, llywio a rheoli. Drwy gyflwyno ystod o gemau, megis dal a thaflu sêr amryliw, mae'r plant yn cael eu hannog i ddechrau deall pwysigrwydd dilyn cyfarwyddiadau a rheolau syml.

Diffygion
Nid yw'r cynllunio yn canolbwyntio'n ddigonol ar ddatblygu medrau corfforol bras y plant gan adeiladu ar eu cyflawniadau a chanolbwyntio ar y camau nesaf yn eu datblygiad corfforol. Annigonol yw'r ddarpariaeth o ran hybu sgiliau dringo, llithro a chydbwyso'r plant ar wahanol lefelau.

3.7 Datblygiad creadigol

Nodweddion da
Mae'r ddarpariaeth yn cynnig ystod o brofiadau, gan gynnwys siapio, torri, lliwio ac addurno gan ddefnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau. Ceir tystiolaeth ar furiau'r ystafell o'r cyfleoedd a gânt i ychwanegu at arddangosfeydd y lleoliad. Rhoddir cyfleoedd i'r plant gymysgu ystod o liwiau i greu effeithiau. Mae'r cyflenwad ac ystod o offerynnau cerdd yn dda. Yn ddiweddar, rhoddwyd cyfleoedd i blant wrando ar gerddoriaeth yn cynnwys darnau offerynnol yn cyfleu sŵn y môr. Yn sgil hynny, darparwyd cyfleoedd i blant ddefnyddio offerynnau cerdd y lleoliad i geisio efelychu sŵn dŵr yn llifo. Cynigir cyfleoedd beunyddiol i'r plant ganu eu repertoire o ganeuon gan gynnwys rhai traddodiadol fel, 'Dau gi bach' a 'Gee ceffyl bach'. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys gweithgareddau symud i gerddoriaeth yn ogystal â chyfleoedd i ddynwared symudiadau creaduriaid, megis brogaod yn neidio.

Diffygion
Er bod y lleoliad yn darparu'r plant â chornel chwarae rôl gydag offer chwarae cegin, nid yw'r ddarpariaeth yn cynnig digon o bwyslais ar chwarae rôl a drama ddychmygol. Mae'r arddangosfeydd yn cynnwys gwaith y plant, ond serch hynny maent yn gynyrchiadau sy'n dilyn amlinelliad a baratowyd gan yr ymarferwyr yn hytrach na delweddau sy'n adlewyrchu creadigrwydd y plant.

Ansawdd y ddarpariaeth addysgol

Ansawdd y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant 3-4 oed

4.1 Ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant

Nodweddion da a dim diffygion pwysig.

Nodweddion da

Mae gan y lleoliad amcanion a gwerthoedd sydd wedi'u seilio ar egwyddorion moesol a chymdeithasol cadarn. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol y plant yn dda. Caiff eu hymwybyddiaeth a'u gwerthfawrogiad o'r byd o'u cwmpas ei gyfoethogi drwy ymweliadau â llefydd fel y ganolfan arddio a thrwy eu cyflwyno i fywyd newydd y Gwanwyn. Anogir y plant i offrwm gweddïau byr cyn mynd adref a chânt ymuno â disgyblion yr ysgol gynradd ar fore dydd Mercher pan ddaw ficer y plwyf i mewn i siarad â hwy. Rhoddir cyfleoedd priodol i'r plant fwynhau cwmni ei gilydd, er enghraifft, wrth chwarae gemau syml. Mae'r ymarferwyr yn annog cwrteisi, a thrwy weithgareddau beunyddiol y lleoliad ymgeisiant i hybu a datblygu medrau personol a chymdeithasol y plant. Ceir tystiolaeth yn ystod yr arolygiad bod yr ymarferwyr a'r plant wedi datblygu perthynas agos ac mae'r plant yn troi atynt yn ddi-oed os oes angen. Dengys gwaith y plant eu bod wedi cael cyfleoedd i ddod yn ymwybodol o ddathliadau sy'n gysylltiedig â Chymru, fel Dydd Gŵyl Dewi. At ei gilydd, hyrwyddir yr iaith Gymraeg yn briodol. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys adnoddau pwrpasol ar gyfer codi ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliannau eraill, gan gynnwys llyfrau stori, pypedau, offerynnau cerdd a gwisgoedd traddodiadol.

Diffygion

Ar hyn o bryd, rhoddir pwyslais annigonol yn y cynllunio ar ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o arferion a thraddodiadau dathliadau sy'n gysylltiedig â chredoau eraill.

4.2 Ansawdd y cynllunio ar gyfer dysgu plant

Rhai nodweddion da ond diffygion mewn meysydd pwysig.

Nodweddion da

Caiff y cynllunio ei seilio ar gyfres o is-themau sy'n addas i ddiddordeb y plant. Maent yn cynnwys tasgau ffocws a gweithgareddau sy'n cyd-fynd â'r thema. Cynigir mynediad a chyfleoedd cyfartal i bob plentyn. Anogir y plant i ddangos parch tuag at eraill, beth bynnag bo'u cefndir. Rhoddir sylw i'r Cwricwlwm Cymreig o fewn y rhaglen ddysgu yn ogystal â datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant.

Diffygion

Ar hyn o bryd, nid yw ymwybyddiaeth yr ymarferwyr o'r Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant i rai 3 i 7 oed yng Nghymru, yn ddigonol. Caiff hyn ei adlewyrchu yn ansawdd y cynllunio. Mae'r gweithdrefnau cynllunio presennol yn fras, ac nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigonol ar y chwe maes ar gyfer dysgu plant. Mae yna ddiffyg ehangder a chydbwysedd yn ogystal â dilyniant a pharhad yn y rhaglen ddysgu a gyflwynir i'r plant. Nid yw'r cynllunio yn cynnwys cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau

sy'n cael eu harwain gan blant. Nid oes digon o bwyslais ar gynllunio gweithgareddau i hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o ddathliadau sy'n perthyn i ddiwylliannau eraill. Mae'r diffygion a geir yng ngweithdrefnau cynllunio'r lleoliad yn effeithio ar nifer o agweddau pwysig, megis ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer hybu ac ymestyn safonau'r plant yn y chwe maes dysgu.

4.3 Ansawdd yr addysgu

Rhai nodweddion da ond diffygion mewn meysydd pwysig.

Nodweddion da
Ceir perthynas agos rhwng yr ymarferwyr a'r plant sydd yn eu gofal. Llwyddant i greu awyrgylch croesawgar a hapus. Cynigir cyfleoedd cyfartal a chaiff pob unigolyn sylw unigol. Anogir y plant i gymryd rhan ac i fwynhau'r gweithgareddau. Mae'r ymarferwyr yn derbyn cymorth a chyfarwyddyd oddi wrth swyddogion cyswllt y Bartneriaeth a chyflwynir ystod o gyfleoedd i'r arweinydd ymestyn ei sgiliau drwy wahoddiad i fynychu cyrsiau a chyfarfodydd. O bryd i'w gilydd, defnyddir yr adnoddau sydd ar gael yn briodol, megis er enghraifft, pypedau a theganau byd bach. Gwneir defnydd o'r ardal allanol ar gyfer rhai gweithgareddau penodol, megis plannu hadau neu chwarae gyda theganau symudol y lleoliad.

Diffygion
Nid yw'r addysgu yn ddigon heriol a chyffrous ac nid yw'n cael ei reoli a'i drefnu'n effeithiol er mwyn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau plant yn y chwe maes dysgu. Mae'r diffyg ymwybyddiaeth o egwyddorion sylfaenol y Cyfnod Sylfaen yn cael effaith andwyol ar ansawdd yr addysgu. Mae diffyg cyflymder i'r sesiynau ac yn aml, oherwydd ansawdd y cwestiynu, gwastraffir cyfleoedd i ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth y plant, er enghraifft, i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o gysyniadau mathemategol neu i ymestyn eu sgiliau llafar yn yr iaith Gymraeg. Er bod y plant yn chwarae rhan weithredol yn aml iawn cânt eu gor-gyfarwyddo ac nid oes cyfleoedd digonol i'r plant i ddatrys problemau a gwneud penderfyniadau. Nid oes yna gydbwysedd rhwng gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan blentyn a'r gweithgareddau a arweinir gan yr ymarferwyr. Hyd yn hyn, mae holl ymdrechion y swyddogion cyswllt ond yn dechrau cael eu hadlewyrchu yn narpariaeth y lleoliad.

4.4 Ansawdd asesu a chofnodi cynnydd plant ac adroddiadau i rieni a gofalwyr

Rhai nodweddion da ond diffygion mewn meysydd pwysig.

Nodweddion da,
Yn ddiweddar, mae'r gweithdrefnau asesu a chofnodi cynnydd plant yn cynnwys nodi rhai arsylwadau bras ymhob un o'r chwe maes dysgu. Yn ystod y misoedd diwethaf, mae'r lleoliad wedi dechrau ar y broses o gadw ffeiliau unigol sy'n cynnwys rhai enghreifftiau o waith plant. Cynhelir sgyrsiau anffurfiol gyda rhieni'r plant yn ddyddiol ac mae'r dystiolaeth a gesglir yn ystod yr arolygiad yn dangos bod y rhieni yn hapus ar y wybodaeth a dderbyniant ar gynnydd eu plant. Dosberthir adroddiadau ysgrifenedig cyn i'r plant cael eu trosglwyddo i'r ysgol gynradd. Ar hyn o bryd, nid

oes unrhyw blentyn wedi'i asesu'n ffurfiol fel un sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Dengys tystiolaeth bod plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol wedi'u hadnabod yn y gorffennol, ac wedi derbyn cynhorthwy oddi wrth gynllun 'Dwylo Ychwanegol', Mudiad Ysgolion Meithrin.

Diffygion
Nid oes gweithdrefnau yn eu lle ar gyfer uniaethu tasgau penodol ar gyfer asesu, a chyfyng yw'r dystiolaeth o ran defnyddio'r arsylwadau a'r canlyniadau asesu i gynllunio gweithgareddau pellach sy'n cwrdd ag anghenion a diddordebau'r plant. Nid yw'r wybodaeth asesu yn cael ei chofnodi'n rheolaidd. Hyd yn hyn, nid yw'r enghreifftiau o waith a geir yn ffeiliau'r plant yn cyfeirio at yr hyn a gyflawnwyd ganddynt nac yn cynnwys sylw am y cam nesaf. Ni cheir unrhyw weithdrefn o asesu plentyn wrth iddynt ddechrau yn y lleoliad, ac o ganlyniad nid oes unrhyw ffordd o fesur y cynnydd a wneir gan y plentyn tra yn y lleoliad. Nid yw'r sylwadau a gofnodir yn adroddiadau cynnydd y plant yn rhoi darlun eglur o gynnydd y plentyn. Nid yw'r trefniadau presennol yn galluogi'r ymarferwyr i wella'r dysgu ac addysgu.

4.5 Ansawdd y berthynas â rhieni, gofalwyr a'r gymuned

Nodweddion da yn gorbwyso diffygion.

Nodweddion da
Mae ymatebion y rhieni i'r holiaduron a ddosbarthwyd yn nodi eu boddhad â'r ddarpariaeth ac ansawdd y gofal a gynigir gan yr ymarferwyr. Mae mwyafrif o'r rhieni newydd yn gyfarwydd â gweithdrefnau'r feithrinfa oherwydd trefniadau Cylch Ti a Fi. Maent yn gwerthfawrogi agosatrwydd yr ymarferwyr. Gweithredir polisi 'drws agored' a theimla'r rhieni eu bod yn hapus i fynd at yr ymarferwyr i drafod unrhyw gonsyrn sydd ganddynt am les eu plentyn. Mae'r hysbysfwrdd yn cynnwys gwybodaeth o ran trefn y sesiwn. Mae'r berthynas gyda'r ysgol gynradd yn dda a thrwy garedigrwydd y pennaeth a chorff llywodraethol yr ysgol rhoddwyd caniatâd i'r feithrinfa i wneud defnydd o gyfleusterau'r ysgol. Mae polisïau a dogfennau'r lleoliad ar gael i rieni eu gweld. Mae gan y lleoliad gysylltiadau priodol â'r gymuned leol. Ceir cefnogaeth trigolion yr ardal yng ngweithgareddau codi arian y lleoliad, megis wrth gymryd rhan yn y nosweithiau bingo a drefnir gan y pwyllgor rheoli.

Diffygion
Prin yw'r defnydd a wneir o'r amgylchedd lleol, ac nid yw'r lleoliad yn gwahodd unigolion, megis pobl sy'n cynrychioli'r byd gwaith, i mewn i siarad â'r plant. Cyfyng yw'r wybodaeth a rennir gyda'r rhieni am y rhaglen ddysgu.

4.6 Y graddau y mae'r lleoliad yn cyfrannu at les plant

Nodweddion da yn gorbwyso diffygion.

Nodweddion da
At ei gilydd, mae gan Gylch Meithrin Llanllwni bolisïau a gweithdrefnau priodol mewn lle i sicrhau lles y plant. Mae'r arweinydd wedi derbyn hyfforddiant ar weithdrefnau amddiffyn plant. Hyrwyddir lles y plant yn briodol o fewn gweithdrefnau beunyddiol y lleoliad ac mae'n amlwg bod y plant yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel. Mae'r berthynas sydd rhwng yr ymarferwyr a'r plant yn un clos a chyfeillgar a rhoddir cyfleoedd i'r plant fynegi'u barn ac i rannu'u teimladau. Mae'r plant yn cael eu goruchwylio yn dda yn yr amgylchfyd mewnol ac allanol. Mae gweithdrefnau mewn lle i ddelio â damweiniau ac mae'r arweinydd wedi derbyn yr hyfforddiant addas. Mae yna gofnod o'r asesiadau risg a gynhaliwyd gan yr arweinydd. Darperir byrbrydau iachus a thra bod yr ymarferwyr yn eistedd gyda'r plant yn ystod amser snac, manteisiant ar y cyfle i hyrwyddo arferion bwyta da. Maent yn rhoi sylw da i sicrhau bod y plant yn medru adnabod bwydydd maethlon yn ogystal â'r bwydydd sy'n cynnwys gormod o fraster a siwgr. Rhoddir cyfleoedd rheolaidd i'r plant ymwneud â gweithgareddau yn yr awyr agored.

Diffygion
Nid yw'r arfer o gwblhau asesiadau risg ar gyfer ymweliadau oddi ar y safle wedi'i ffurfioli'n ddigonol. Ar hyn o bryd, nid yw'r cymhorthydd yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau Amddiffyn Plant. Prin yw'r cyfleoedd a gynlluniwyd i blant ymwneud ag ymarferion egniol yn rheolaidd.

4.7 Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth yn y lleoliad

Rhai nodweddion da ond diffygion mewn meysydd pwysig.

Nodweddion da
Mae gan y lleoliad amcanion clir sy'n hyrwyddo cydraddoldeb i bawb. Yn ddiweddar, mae gweithdrefnau ar gyfer hunan arfarnu'r ddarpariaeth a safonau'r plant newydd gael eu mabwysiadu. Mae'r arweinydd wedi dechrau ar y broses o uniaethu camau ar gyfer gwelliant. Mae gan yr arweinydd a'r cymhorthydd berthynas agos gyda'r pwyllgor rheoli cyfredol. Mae'r pwyllgor yn weithgar o ran trefnu a gweithredu gweithgareddau codi arian i helpu cynnal y lleoliad. Mae'r arweinydd wedi mynychu ychydig o'r cyrsiau a chyfarfodydd ymgynghori a gynigir gan y Bartneriaeth leol.

Diffygion
Aneglur yw swyddogion y pwyllgor rheoli o ran eu rôl. Hyd yn hyn, nid yw'r ymarferwyr wedi cael eu gwerthuso ac nid oes ganddynt strategaethau ar gyfer cefnogi datblygiad staff. O ganlyniad, nid oes yna weithdrefnau ar gyfer arfarnu effaith datblygu staff ar godi safonau ac ansawdd y ddarpariaeth. Ond megis dechrau mae gweithdrefnau hunan arfarnu'r feithrinfa ac nid oes ystyriaeth wedi cael ei roi i bob agwedd o'r ddarpariaeth. Nid oes graddfa amser wedi ei gosod ar gyfer y broses o gynllunio datblygiadau ar gyfer y dyfodol. Hyd yma, nid yw'r modd y defnyddir y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth a dderbynnir oddi wrth Bartneriaeth Datblygiad Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yr awdurdod lleol, wedi cael effaith

ddigonol ar godi safonau ac ansawdd y ddarpariaeth. Nid yw llyfryn y rhieni yn cynnwys y wybodaeth briodol ynglŷn â chwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a'r oriau mae'r lleoliad yn gweithredu'n bresennol. Ar hyn o bryd, naw awr yn unig a gynigir gan y feithrinfa. Mae diffyg ansawdd yn nhrefniadaeth yr amgylchfyd dysgu yn dylanwadu ar effeithiolrwydd y modd y defnyddir adnoddau'r lleoliad.

4.8 Y cynnydd a wnaed gan y lleoliad wrth weithredu'r materion allweddol ar gyfer gweithredu a nodwyd yn yr adroddiad arolygu diwethaf

Rhai nodweddion da ond diffygion mewn meysydd pwysig.

Nodweddion da
Yn sgil mewnbwn swyddogion y Bartneriaeth leol, mae'r lleoliad wedi dechrau ar y broses o fabwysiadu a gweithredu strategaethau cynllunio, asesu a chofnodi newydd. Darperir adroddiad ysgrifenedig ar gyfer rhieni i nodi cynnydd eu plant ar ddiwedd eu cyfnod yn y lleoliad.

Diffygion
Hyd yn hyn, nid yw'r gweithdrefnau cynllunio a'r dulliau o asesu a chofnodi cynnydd plant wedi'u datblygu'n ddigonol i godi safonau'r plant ac i wella ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r rhain yn ddiffygion pwysig. Er bod y pwyllgor wedi adnewyddu'r llyfryn gwybodaeth a ddosberthir i rieni, nid yw'n cynnwys y wybodaeth gywir a phriodol ar gyfer egluro'r ddarpariaeth addysgol.

5.0 Argymhellion

Mae angen i'r lleoliad:

- sicrhau bod y plant yn derbyn deg awr o ddarpariaeth yn unol â'r oriau sy'n cael eu hariannu gan y Bartneriaeth Plant;
- gweithredu ar y diffygion a nodwyd yn narpariaeth y chwe maes dysgu fel bod safonau'r plant yn cael eu hymestyn a'u hyrwyddo'n effeithiol;
- gwella ansawdd y cynllunio ar gyfer dysgu plant fel bod yna ehangder a chydbwysedd yn ogystal â dilyniant a pharhad yn y rhaglen ddysgu;
- sicrhau bod yr ymarferwyr yn ymgyfarwyddo ag athroniaeth a gofynion y Cyfnod Sylfaen fel bod ansawdd yr addysgu yn cyfrannu at gynnydd a chyflawniad y plant; a
- datblygu gweithdrefnau asesu a chofnodi fel bod y wybodaeth a gesglir yn dylanwadu'r cynllunio, ac yn cyfrannu at fodloni anghenion a diddordebau pob plentyn.

Rhaid i'r darparwr lunio cynllun gweithredu ymhen 40 diwrnod gwaith, neu 45 diwrnod gwaith os oes angen cyfieithu'r cynllun i'r Gymraeg neu o'r Gymraeg, gan ddangos sut eir i'r afael â'r materion a nodir uchod. Rhaid rhoi'r cynllun gweithredu i bob rhiant/gofalwr sydd â phlentyn yn y lleoliad. Rhaid anfon copi o'r cynllun gweithredu at Gadeirydd y Bartneriaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant neu'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, fel y bo'n briodol, ac i'r Awdurdod Lleol. Bydd arfarniad o'r camau a gymerwyd yn ffurfio rhan o'r arolygiad nesaf.